# Asesiad strategol gwella ansawdd dŵr yn seiliedig ar natur: Rhan Ifaf Cleddau Wen



| | |
|---|---|
| Dyddiad cau: | 5pm 12fed Hydref 2026 |
| Rhoddir gwybod am y canlyniad erbyn: | 22ain Hydref 2026 |

Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
Parc Llanion
Doc Penfro
Sir Benfro
SA72 6DY

## Cynnwys


1. Crynodeb ........ 3
2. Cyd-destun ........ 3
3. Pwrpas ac amcanion ........ 4
4. Cyllideb ........ 7
5. Cwmpas daearyddol ........ 7
6. Amserlen ........ 7
7. Dull asesu a awgrymir ........ 7
8. Yr elfennau i'w cyflawni ........ 9
9. Rhaglen ddangosol ........ 13
10. Mewnbwn cleientiaid ........ 13
11. Arbenigedd ymgynghorwyr ........ 13
12. Grŵp cleientiaid ........ 13
13. Gwerthuso a sgorio ........ 14
14. Amodau'r Gwahoddiad i Dendro ........ 16
15. Telerau ac amodau'r prosiect ........ 16
Atodiad 1 - Trosolwg / map cyd-destun ........ 18
Atodiad 2 - Diagram o'r gofrestr cyfleoedd a awgrymir ........ 19
Atodiad 3 - Mentrau a ffynonellau gwybodaeth eraill ........ 20

## 1. Crynodeb

Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn gwahodd cynigion gan ymgynghorwyr i nodi a blaenoriaethu cyfleoedd ymyrryd sy'n seiliedig ar natur a allai gyfrannu at wella ansawdd dŵr yn rhan isaf Cleddau Wen (ac efallai dalgylchoedd perthnasol eraill os yw hynny'n ymarferol o fewn y gyllideb).

Bydd dull tryloyw, wedi'i bwysoli, gyda nifer o feini prawf yn asesu mantais o ran ansawdd dŵr, cysylltiadau tarddle / llwybr / derbynnydd, cysylltedd hydrolegol, posibilrwydd ymyrryd a dichonoldeb gweithredu. Bydd dadansoddiad GIS yn nodi ac yn mapio tarddleoedd, llwybrau, derbynyddion a rhannau blaenoriaeth llygredd gan ddefnyddio'r setiau data sydd ar gael. Bydd ymgysylltu â rhanddeiliaid a thirfeddianwyr yn cefnogi mynediad at waith maes, yn llywio dichonoldeb ac yn meithrin cymorth gweithredu yn y dyfodol. Bydd teithiau cerdded wedi'u targedu yn cadarnhau ac yn mireinio'r asesiad, gan nodi cyfleoedd a chyfyngiadau nad ydynt yn amlwg o wybodaeth desg.

Bydd yr allbynnau'n cynnwys cronfa ddata blaenoriaethu a chyfleoedd GIS y gellir eu diweddaru, llyfr mapiau, adroddiad naratif ac astudiaethau achos / senarios dethol. Dylai'r asesiad wahaniaethu rhwng blaenoriaethau strategol a chyfleoedd y gellir eu rhoi ar waith ac ystyried yn gryno botensial ymyriadau i liniaru maethynnau / credydau yn y dyfodol (a sut y gallai hyn ddylanwadu ar y nifer sy'n manteisio arnynt).

Cyllideb: £38,000 heb gynnwys TAW, sy'n cael ei ariannu gan Esteé Lauder Companies UK & Ireland drwy Sefydliad Parciau Cenedlaethol y DU.

## 2. Cyd-destun

Mae Aberdaugleddau - Mewnol, Aberdaugleddau - Allanol, Aber y Ddau Gleddau a dyfroedd llanw Cleddau Wen o fewn Ardal Cadwraeth Arbennig Forol Sir Benfro. Mae Cleddau Wen hefyd yn rhan o Ardal Cadwraeth Arbennig Afonydd Cleddau, gyda rhan isaf yr afon yn darparu mewnbwn dŵr croyw mawr i Aberdaugleddau - Mewnol.

Mae afonydd Cleddau a chyrff dŵr Aberdaugleddau yn cyrraedd statws Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr Cymedrol h.y. nid ydynt yn cyrraedd Statws Da. Mae crynodiadau uwch o faetholion, yn enwedig nitrogen anorganig wedi hydoddi (DIN), yn sbarduno methiannau ecolegol yn yr aber drwy dwf macroalgaidd.

Mae pwysau maethynnau'n tarddu ar draws dalgylch Afonydd Cleddau, yn enwedig Cleddau Wen, gyda ffosfforws (P) yn effeithio ar ddŵr croyw a nitrogen (N) gan gyfrannu at gyfoethogi aberol i lawr yr afon. Mae Aberdaugleddau - Mewnol hefyd yn methu cyrraedd Statws Cemegol Da oherwydd halogyddion parhaus.

Mae'r llwythi uwch hyn o faethynnau wedi cyfrannu at gymhwyso gofynion niwtraliaeth maethynnau ar gyfer datblygu, gan gynnwys cyfyngiadau ar ddarpariaeth tai newydd nes gellir sicrhau mesurau lliniaru priodol.

Mae angen mesurau rheoli integredig ar raddfa dalgylch i fynd i'r afael â llwybrau llygredd gwasgaredig a llygredd tarddle penodol. Gallai atebion sy'n seiliedig ar

natur, gan gynnwys creu gwlyptiroedd, adfer gorlifdiroedd, sefydlu coetiroedd glannau afon a newidiadau o ran rheoli tir amaethyddol a draenio, arwain at leihau'r maethynnau a gollir, gwella lefelau cadw maethynnau a sicrhau manteision ehangach i'r ecosystem.

Bydd Cynllun Adfer Maethynnau Dalgylch (CNRP) newydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn darparu llwybr tuag at ddull mwy integredig ar draws y dalgylch o reoli maethynnau, gan leihau'r ddibyniaeth ar niwtraliaeth maetholion fesul datblygiad. Yn hytrach nag ystyried effaith pob datblygiado ran maethynnau ar ei ben ei hun, bwriedir i'r dull integredig ystyried datblygu ochr yn ochr â'r rhaglen ehangach o fesurau lleihau ac adfer maethynnau sy'n ofynnol i gyflawni amcanion cadwraeth yr ACA yr effeithir arni. Bwriad y Cynllun Adfer yw mesur y gostyngiadau maethynnau sydd eu hangen ar gyfer adfer dalgylchoedd a nodi a sicrhau mesurau sy'n gallu cyflawni'r gostyngiadau hynny. Yn amodol ar ganlyniad y Cynllun Adfer a phbroses yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd, gallai hyn roi mwy o hyblygrwydd ar gyfer datblygu ar yr un pryd â chynnal y lefel angenrheidiol o ostyngiad mewn maethynnau i gefnogi'r gwaith o adfer y safle dynodedig[1].

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn gweithio'n gyflym i gyflawni Cam 1 y CNRP erbyn mis Hydref 2026. Bydd Cam 1 yn amcangyfrif y capasiti i leihau maethynnau yn y dalgylch (ar sail y tir a allai fod ar gael a newidiadau defnydd tir / gorchudd tir presennol drwy amrywiaeth resymol o fesurau ymarferol a hyfyw) a bydd yn ystyried rhai camau gweithredu, prosiectau arfaethedig a gwaith cydymffurfio i nodi pa fesurau fydd yn cael eu rhoi ar waith. Mae Cam 2 yn cynnwys astudiaeth fanwl o gapasiti maethynnau'r dalgylch a'r mesurau sydd wedi'u sicrhau, a fydd yn cynnwys rhywfaint o'r gwaith sy'n cael ei wneud gan randdeiliaid. Disgwylir y bydd Cam 3, sef cynhyrchu cynllun manwl terfynol, wedi'i gwblhau erbyn mis Ebrill 2027.

## 3. Pwrpas ac amcanion

Yn y cyd-destun hwn (sy'n cynnwys ffrydiau gwaith eraill, y rhoddir enghreifftiau ohonynt yn Atodiad 3), bydd yr ymgynghorydd penodedig yn cynnal asesiad gofodol penodol i ganfod a blaenoriaethu cyfleoedd ar gyfer ymyriadau sy'n seiliedig ar natur a allai wneud cyfraniad ystyrlon at wella ansawdd dŵr yng nghoridor rhan isaf Cleddau Wen ac, o ganlyniad, cyrff dŵr cysylltiedig i lawr yr afon.

Dylai'r asesiad ddefnyddio dull tryloyw, wedi'i bwysoli, â meini prawf lluosog i nodi a rhestru cyfleoedd ymyrryd posibl. Dylai meini prawf ystyried, fel y bo'n briodol, y cyfraniad posibl at wella ansawdd dŵr, cysylltiadau tarddle / llwybr / derbynnydd llygryddion, cysylltedd hydrolegol, defnydd tir, cyfyngiadau a chyfleoedd amgylcheddol presennol, dichonoldeb ymyrryd, a ffactorau perthnasol eraill. Dylid rhoi disgrifiad clir o'r meini prawf, y pwysoliad a'r fethodoleg blaenoriaethu arfaethedig a dylid cytuno arnynt gydag Awdurdod y Parc yn gynnar yn y gwaith comisiwn. Mae Adran 7 yn rhoi awgrym o'r dull asesu isod.

Bydd asesiad ar sail GIS yn cael ei gynnal i ganfod a mapio ffynonellau, llwybrau a derbynyddion llygredd posibl ar draws ardal yr astudiaeth. Dylai hyn ddefnyddio

---

[1] Gall hefyd fod yn gyfle ar gyfer dull *de minimis* neu drothwy yn y dyfodol, lle gellid trin cyfraniadau maethynnau gweddilliol sy'n ddigon bach fel nad oes angen eu trin fel rhai lle mae angen mesurau lliniaru maethynnau niwtraliaeth unigol.

setiau data gofodol sydd ar gael ac ystyried, fel y bo'n briodol, defnydd tir amaethyddol, mynediad i dda byw, draenio caeau, dŵr ffo wyneb, topograffeg, mewnbynnau isafonydd, gollyngfeydd, croesfannau a nodweddion perthnasol eraill.

Dylai'r asesiad nodi lleoliadau a rhannau'r cyrsiau dŵr lle gallai llygryddion gael eu rhoi ar waith a llifo i'r cwrs dŵr, a lle gallai ymyriadau sy'n seiliedig ar natur amharu ar y llwybrau hyn neu eu lleihau. Defnyddir y dadansoddiad GIS i nodi a blaenoriaethu rhannau o'r cwrs dŵr a lleoliadau ar gyfer cynnal ymchwiliadau maes.

Cynhelir teithiau cerdded wedi'u targedu o gwmpas sampl gynrychioliadol o gyrsiau dŵr â blaenoriaeth i wirio'r tir a mireinio'r asesiad desg ac i nodi cyfleoedd a chyfyngiadau na ellir eu nodi'n ddibynadwy drwy GIS a delweddau o'r awyr yn unig. Ar deithiau cerdded, dylid ceisio nodi ymysg nodweddion eraill, mynedfeydd uniongyrchol neu fannau yfed i dda byw, sathru, erydiad glannau, croesfannau anffurfiol, draeniau caeau a mannau gollwng, llwybrau dŵr ffo gwasgaredig tryledol, symudiadau gwaddod, cyflwr glannau afon, a phwyntiau mynediad llygryddion posibl eraill neu gyfleoedd ymyrryd. Gall llystyfiant glannau afon neu orchudd canopi coed fod yn cuddio'r nodweddion hyn mewn delweddau o'r awyr.

Dylai'r ymgynghorydd gynnig dull priodol ar gyfer dewis y sampl o deithiau cerdded, gan ystyried dosbarthiad gofodol, cysylltedd a'r risg gymharol o lwybrau llygredd a nodwyd a'r posibilrwydd o gael ymyriadau sy'n seiliedig ar natur. Dylid cael cyfeirnodau gofodol at ganfyddiadau gwaith maes a'u defnyddio i ddilysu a mireinio'r asesiad GIS a blaenoriaethu.

Bydd ymgysylltu â rhanddeiliaid perthnasol, gan gynnwys ffermwyr a thirfeddianwyr, yn rhan annatod o'r asesiad. Bydd hyn yn cynnwys ymgysylltu'n gynnar i geisio'r caniatâd angenrheidiol a hwyluso mynediad ar gyfer gwaith maes, ar yr un pryd â meithrin dealltwriaeth o bwrpas ac amcanion y gwaith, manteision posibl ymyriadau sy'n seiliedig ar natur, a'r posibilrwydd o gyflwyno mesurau gwella ansawdd dŵr yn y dyfodol. Bydd y berthynas â thirfeddianwyr yn allweddol i lwyddiant yn y dyfodol. Nodwch yn y cyswllt hwn y bydd gofyn i'r ymgeisydd gydymffurfio ag egwyddorion Safonau Iaith Gymraeg yr Awdurdod, gan gynnwys hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg.

Felly, mae'n bwysig bod yr asesiad yn gwahaniaethu rhwng safleoedd sy'n flaenoriaeth strategol o safbwynt ansawdd dŵr a safleoedd lle mae cyfle realistig i roi mesurau ar waith. Ni fydd modd gweithredu ar bob safle o bwysigrwydd strategol, ac ni fydd pob safle y gellir gweithredu arnynt yn rhai strategol.

Dylai'r ymgynghorydd nodi dull priodol o ymgysylltu â rhanddeiliaid, gan gynnwys sut bydd gwybodaeth a gesglir drwy ymgysylltu yn cael ei hymgorffori yn y gwaith o asesu a blaenoriaethu cyfleoedd.

Y prif allbwn fydd creu cronfa ddata o gyfleoedd a blaenoriaethau gofodol penodol sy'n seiliedig ar GIS, a fydd yn cwmpasu cyfleoedd ymyrryd a nodwyd sy'n seiliedig ar natur. Dylai'r gronfa ddata ddarparu cofnod clir a thryloyw o'r dystiolaeth, y meini prawf a'r tybiaethau sy'n sail i flaenoriaethu pob cyfle, gan gynnwys dadansoddiad GIS perthnasol, arsylwadau maes, ystyriaethau rhanddeiliaid / tirfeddianwyr a chyfyngiadau gweithredu.

Dylid strwythuro'r gronfa ddata a'r data GIS cysylltiedig er mwyn i Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro allu eu cadw, eu harchwilio a'u diweddaru wedyn. Felly, dylai'r allbynnau fod yn addas ar gyfer cefnogi ymgysylltu â thirfeddianwyr yn y dyfodol, datblygu prosiectau a chynlluniau, a gwneud ceisiadau am gyllid.

Awgrymir y dylid cynnwys y canlynol gyda'r gronfa ddata GIS:

- maplyfr yn cyflwyno dosbarthiad gofodol ac yn blaenoriaethu cyfleoedd;
- adroddiad naratif yn nodi'r fethodoleg, y sylfaen dystiolaeth, y meini prawf asesu, y broses pwysoli a blaenoriaethu, y canfyddiadau allweddol a'r argymhellion; a
- detholiad o astudiaethau achos / senarios manylach o'r ymarfer blaenoriaethu, sy'n dangos sut y gellid mynd ati'n ymarferol i ddatblygu cyfleoedd â mwy o flaenoriaeth, gan gynnwys natur yr ymyriad arfaethedig, y manteision disgwyliedig o ran ansawdd dŵr, ystyriaethau sy'n benodol i'r safle, ymarferoldeb a'r camau nesaf posibl.

Dylai'r allbynnau terfynol ddarparu sylfaen dystiolaeth gadarn a thryloyw y gellir ei diweddaru i Awdurdod y Parc Cenedlaethol a phartneriaid er mwyn nodi ymyriadau sy'n seiliedig ar natur yn rhan isaf Cleddau Wen, ymgysylltu arnynt a'u datblygu, ac ar gyfer dangos eu cyfraniad posibl at amcanion ansawdd dŵr ymhellach i lawr yr afon.

*Cysylltiadau credydau maetholion*
Dylai'r asesiad gael cipolwg ar rôl bosibl mesurau lliniaru maethynnau neu ddulliau gweithredu sy'n seiliedig ar gredydau yn y dyfodol, gan gydnabod bod gwaith yn mynd rhagddo gan Arup ar lefel genedlaethol (Llywodraeth Cymru) a lleol (Cyngor Sir Penfro). Gall gwerth credyd hefyd newid yr awydd sylfaenol i fabwysiadu ymyriadau.

Fodd bynnag, prif bwrpas yr asesiad hwn yw nodi safleoedd sy'n darparu gwelliannau cadarn a hirdymor i ansawdd dŵr ar gyfer yr Ardal Cadwraeth Arbennig. Dylai unrhyw ddefnydd o'r ymyriadau hyn yn y dyfodol i gefnogi cynlluniau lliniaru maethynnau neu gynlluniau credydau gael ei ystyried yn fantais eilaidd ac ni ddylai danseilio, disodli na bod yn brif sbardun i'r gwaith adfer sydd ei angen i sicrhau statws cadwraeth ffafriol[2].

Bydd y Cynllun Adfer yn fframwaith i alluogi dewis mesurau sy'n gallu cyflawni'r gostyngiad maethynnau a gyfrifwyd sy'n ofynnol ar gyfer yr ACA, tra bydd yr asesiad hwn yn nodi ble a sut yn union y gellir mynd ati'n ymarferol i gyflwyno atebion sy'n seiliedig ar natur mewn rhan benodol o'r dalgylch (rhan isaf Cleddau Wen). Gall yr asesiad hwn lywio camau diweddarach y gwaith o ddatblygu'r Cynllun Adfer.

[2]Dylai'r asesiad hefyd gydnabod bod gwaith blaenorol wedi dangos nad yw trosi adfer cynefinoedd yn gynlluniau lliniaru maethynnau neu gynlluniau sy'n seiliedig ar gredydau yn broses syml, oherwydd amrywiaeth o heriau o safbwynt rheoleiddio, cyfreithiol a chyflawni.

## 4. Cyllideb

Y gyllideb yw £38,000 heb gynnwys TAW, sy'n cael ei ariannu gan Esteé Lauder Companies UK & Ireland drwy Sefydliad Parciau Cenedlaethol y DU.

## 5. Cwmpas daearyddol

Gweler Atodiad 1 i gael trosolwg / map cyd-destun y mae'r astudiaeth hon wedi'i lleoli ynddo.

Yn hydregol, bydd yr asesiad yn canolbwyntio ar rannau aberol a dyfroedd llanw rhan isaf Cleddau Wen (o'r gored ar derfyn y dyfroedd llanw yn Hwlffordd i lawr yr afon), yn hytrach na'r dalgylchoedd dŵr croyw ehangach i fyny'r afon. Mae hyn yn adlewyrchu'r dystiolaeth bresennol sy'n nodi bod yr ardal hon yn flaenoriaeth o ran ymyriadau lleihau maethynnau. Mae'r dull hwn yn sicrhau bod yr astudiaeth yn parhau i fod yn gymesur â'i hamcanion a'i chyllid (ac yn cyd-fynd yn fras â hyd a lled daearyddol Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, gan gadw at lwybrau hydrolegol a allai fod â'u tarddle y tu allan i ffin y Parc Cenedlaethol).

*Potensial o ran gwerth ychwanegol*
Gwahoddir cynigwyr i ystyried sut y gellid hefyd mynd ati'n gost-effeithiol i gymhwyso elfennau desg y fethodoleg a ddatblygwyd drwy'r comisiwn hwn i'r ardaloedd canlynol, neu is-set ohonynt, *o fewn yr adnoddau sydd ar gael ar gyfer y comisiwn a heb beryglu'r ffocws craidd a'r gofynion ar gyfer rhan isaf Cleddau Wen.*

- Dalgylchoedd corff dŵr trosiannol rhan isaf Cleddau Ddu (o bont Melin Blackpool i'r cydlifiad â Cleddau Wen yn Nhrwyn Pictwn)
- Dalgylchoedd corff dŵr Aberdaugleddau - Mewnol, o gydlifiad Afonydd Cleddau i lawr yr afon i e.e. Pont Cleddau

Nid oes disgwyl unrhyw deithiau cerdded na gwaith maes ychwanegol ar gyfer y dalgylchoedd hyn.

Os byddai angen arian ychwanegol ar gyfer y cydrannau ychwanegol hyn (yn gyfan gwbl neu'n rhannol), gwahoddir amcangyfrif o'r costau ar gyfer pob cydran.

## 6. Amserlen

Rhoddir awgrym o gamau / pecynnau gwaith yn Adran 8. Rhaid i Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro gyflwyno adroddiad terfynol ar y prosiect i Sefydliad Parciau Cenedlaethol y DU erbyn 30 Mai 2027.

## 7. Dull asesu a awgrymir

Awgrymir y dylid mynd ati i ddatblygu dull tryloyw, wedi'i bwysoli, â meini prawf lluosog i nodi a blaenoriaethu cyfleoedd ar lefel uned hydrolegol a safle / ymyriad. Dylid asesu pob uned yn erbyn set dryloyw o feini prawf, a allai gynnwys y canlynol:

- pwysau maethynnau a llwybrau llygredd;
- cysylltedd hydrolegol â chyrff dŵr a derbynyddion i lawr yr afon;
- y posibilrwydd o ymyriadau sy'n seiliedig ar natur i leihau'r maetholion sy'n cael eu darparu a gwella ansawdd dŵr;
- mesurau lleihau maethynnau presennol ac arfaethedig (e.e. Dŵr Cymru Welsh Water, Cyfoeth Naturiol Cymru, Cyngor Sir Penfro ac eraill);

- cyfyngiadau a chyfleoedd posibl, gan gynnwys seilwaith, cynefinoedd presennol, asedau treftadaeth, Dosbarthiad Tir Amaethyddol a defnydd tir[3]
- y mathau o ymyriadau sy'n seiliedig ar natur a allai fod yn briodol; a
- cysoni strategol ag amcanion a blaenoriaethau amgylcheddol presennol, gan gynnwys cyfleoedd am gyllid posibl yn y dyfodol.

Bydd hyn yn nodi'r meysydd lle ceir y cyfleoedd strategol mwyaf.

O fewn yr unedau hyn, a chan gydnabod y gall cyfleoedd mewn unedau â llai o flaenoriaeth hefyd wneud cyfraniad ystyrlon, dylai'r asesiad nodi ac asesu cyfleoedd penodol am ymyrraeth, gan ystyried addasrwydd, graddfa bosibl a manteision tebygol gwahanol atebion sy'n seiliedig ar natur, e.e.

- gwlyptiroedd a glaswelltiroedd gwlyb;
- adfer ac ailgysylltu'r gorlifdir;
- coetir glannau'r afon;
- lleiniau clustogi a ffensys glannau'r afon;
- rheoli dŵr ffo a draenio;
- mesurau naturiol i reoli llifogydd; a
- atebion eraill priodol sy'n seiliedig ar natur.

Dylai'r asesiad hefyd ystyried dichonoldeb gweithredu, gan gynnwys parodrwydd tirfeddianwyr, cyfyngiadau a chaniatâd, amserlen a chost. Er y gallai'r agwedd hon fod yn brif sbardun, ystyrir y dylai dadansoddiad GIS ddarparu'r asesiad cychwynnol, gyda theithiau cerdded cyrhaeddiad ac ymgysylltu â rhanddeiliaid / tirfeddianwyr yn cael eu defnyddio i gadarnhau a mireinio'r asesiad, yn enwedig mewn perthynas ag addasrwydd y safle a'r gallu i'w gyflawni.

Dylai cofrestr priodoleddau a chyfleoedd y GIS adlewyrchu'r gwahaniaeth yn hytrach na blaenoriaethu un sgôr MCA cyfansawdd (wedi'i wastadu) yn unig. Gallai dull matrics Boston fod yn briodol, e.e.

| | **Lefel uchel o barodrwydd i gyflawni** | **Lefel isel o barodrwydd i gyflawni** |
|---|---|---|
| **Blaenoriaeth strategol uchel** | Blaenoriaethau datblygu prosiect ar unwaith | Blaenoriaethau strategol sydd angen gwaith ymgysylltu /dichonoldeb penodol |
| **Blaenoriaeth strategol ganolig** | Manteision cyflym posibl / prosiectau oportiwnistaidd | Piblinell cyfleoedd tymor hirach |

Fel hyn, dylai fod yn bosibl cynhyrchu cyfres o fapiau, gyda datganiadau cysylltiedig (mewn tabl priodoleddau) fel:

*"Mae gan Safle A sgôr uchel fel cyfle am wlyptir posibl oherwydd ei fod ar lwybr maetholion cymedrol ac yn draenio'n uniongyrchol i gorff dŵr sy'n methu. Mae*

[3] Canllawiau strategol presennol, gan gynnwys Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro (2023) Dylai'r asesiad gynnwys *"Canllawiau Coed a Choetiroedd Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro. Asesiad sensitifrwydd tirwedd wrth greu coetir*". Dylid ystyried ardaloedd sydd â photensial tirwedd ar gyfer creu coetiroedd fel cyfleoedd posibl lle maent hefyd yn cyd-fynd ag amcanion ecolegol a lleihau maethynnau, e.e. y rheini sy'n deillio o *Adolygiad o'r cynnydd hyd yma a fframwaith strategol ar gyfer cyflwyno'r targed 30 erbyn 30 ym Mharc Cenedlaethol Arfordir Penfro* (2026).

*trafodaethau cychwynnol yn dangos bod y tirfeddianwyr perthnasol yn gefnogol mewn egwyddor. Nid oes cyfyngiadau ecolegol nac o ran seilwaith. Mae'r cynnig yn gydnaws â'r amcanion ehangach ar gyfer adfer bioamrywiaeth a byddai'n cyfrannu at y gallu i wrthsefyll llifogydd. Mae modd cyflawni'r prosiect yn y tymor canolig a'r amcan gost yw £X.*

Gyda'i gilydd, byddai'r rhain yn gofrestr cyfle meintiol, y gellid ei rhoi mewn tabl hefyd i ddangos amserlenni gweithredu posibl ac amcanestyniadau lleihau maethynnau.

## 8. Yr elfennau i'w cyflawni

Gyda'i gilydd, dylai'r elfennau i'w cyflawni sefydlu llif gofodol eglur, sy'n cael ei arwain gan dystiolaeth ac y gellir ei ddiweddaru o gyfleoedd ymyrraeth sy'n seiliedig ar natur yn yr ardal ddaearyddol. Dylai'r gwaith symud ymlaen o fapio tystiolaeth o'r dalgylch a chyfleoedd gofodol, drwy flaenoriaethu tryloyw ar sail meini prawf lluosog ac ymgysylltu â rhanddeiliaid / tirfeddianwyr, i nodi safleoedd blaenoriaeth, eu parodrwydd ar gyfer cyflawni a gofynion y cam nesaf.

Dylai'r allbynnau terfynol ddarparu sylfaen dystiolaeth ymarferol i Awdurdod y Parc a phartneriaid ar gyfer datblygu prosiectau, gweithio mewn partneriaeth a cheisiadau am gyllid yn y dyfodol, ar yr un pryd â darparu gwybodaeth a all lywio camau dilynol y Cynllun Adfer Maethynnau Dalgylch ac ystyried dulliau lliniaru maethynnau yn y dyfodol.

| **Cam / Pecyn Gwaith** | **Elfen i'w chyflawni** | **Cynnwys / pwrpas a awgrymir** |
|---|---|---|
| 1. Cychwyn | Adroddiad cychwynnol | Cadarnhau cwmpas, amcanion, cwestiynau allweddol, llywodraethu, tybiaethau, risgiau, dibyniaethau, gofynion data ac ati. |
| | Methodoleg y cytunwyd arni | Methodoleg asesu gyffredinol, gan gynnwys teipoleg ymyriadau, dadansoddiad gofodol, dull dadansoddi meini prawf lluosog, strategaeth teithiau cerdded, ymgysylltu â rhanddeiliaid, dilysu yn y maes, trin tystiolaeth ac ansicrwydd am leihau maethynnau. |
| | Rhaglen prosiect y cytunwyd arni | Cerrig milltir, dibyniaethau, gweithgareddau ymgysylltu, pwyntiau adolygu, pwyntiau penderfynu allweddol. |
| 2. Tystiolaeth gwaelodlin a'r gronfa ddata GIS | Adolygu data a nodyn tystiolaeth | Prif adolygiad o'r dystiolaeth ofodol ac anofodol sydd ar gael, gan gynnwys pwysau o ran maethynnau, astudiaethau presennol, prosiectau adfer, gwaith perthnasol ar y Cynllun Adfer, bylchau a chyfyngiadau yn y data. |

| | | |
|---|---|---|
| | Mapiau gwaelodlin | Pwysau yn y dalgylch, defnydd tir, hydroleg, safleoedd dynodedig, ansawdd dŵr, atebion / adfer presennol sy'n seiliedig ar natur, seilwaith, cyfyngiadau amgylcheddol a defnydd tir ac ati. |
| | Cronfa geoddata GIS | Cronfa geoddata prosiect strwythuredig sy'n cynnwys setiau data ffynhonnell, setiau data deilliedig ac allbynnau prosiect. |
| | Metadata | Metadata ar gyfer y ffynhonnell a setiau data deilliedig, e.e. tarddiad data, dyddiad, graddfa / datrysiad, cyfyngiadau a defnydd priodol. |
| 3. Asesiad o'r cyfle i ymyrryd yn seiliedig ar natur | Fframwaith teipoleg ac addasrwydd ymyriadau sy'n seiliedig ar natur | Diffiniad o'r ymyriadau sy'n seiliedig ar natur i'w hasesu, eu mecanweithiau budd, eu meini prawf addasrwydd gofodol, eu cyfyngiadau allweddol, eu sylfaen dystiolaeth a hyder yn y canlyniadau disgwyliedig. |
| | Haenau cyfleoedd GIS | Cyfleoedd gofodol penodol ar gyfer pob math perthnasol o ymyrraeth, wedi'u cefnogi gan y fethodoleg addasrwydd y cytunwyd arni. |
| | Cyfyngiadau a haenau o allu i gyflawni | Nodi'n ofodol gyfyngiadau ffisegol, amgylcheddol, defnydd tir, mynediad, cynllunio, cydsynio a chyfyngiadau eraill a allai effeithio ar weithredu. |
| | Adroddiad methodoleg mapio | Disgrifiad o setiau data, dulliau dadansoddi, tybiaethau, rheolau sgorio / addasrwydd, cyfyngiadau a sicrhau ansawdd. |
| 4. Blaenoriaethu | Fframwaith a matrics sgorio<br>yr asesiad meini prawf lluosog (MCA) | Meini prawf tryloyw, pwysoliadau, rheolau sgorio, ffynonellau tystiolaeth a dull o brofi sensitifrwydd. Dylai'r meini prawf roi sylw i fudd amgylcheddol, budd maethol, dichonoldeb, y gallu i gyflawni, ystyriaethau tirfeddianwyr, cost, cydsynio a manteision ehangach fel y bo'n briodol. |
| | Rhoi'r meysydd cyfle yn eu trefn | Cyfleoedd wedi'u blaenoriaethu gyda sgoriau, math o ymyriad, rhesymeg strategol a chyfyngiadau allweddol. |
| | Asesiad cyfle strategol a llyfr mapiau blaenoriaethau | Mapiau a sylwebaeth gryno yn nodi ac yn egluro meysydd cyfle â blaenoriaeth a'r ymyriadau y gellid eu dilyn ynddynt. |

| | | |
|---|---|---|
| | Asesiad dangosol o’r posibilrwydd o leihau maethynnau a hyder | Asesiad dangosol o’r gostyngiad posibl mewn maethynnau sy’n gysylltiedig ag ymyriadau â blaenoriaeth, gan wahaniaethu rhwng budd wedi’i fodelu / amcangyfrif, budd wedi’i gefnogi gan dystiolaeth a buddion y mae angen ymchwilio ymhellach iddynt. Ni ddylai hyn fod yn fethodoleg credydu maethynnau. |
| 5. Ymgysylltu â rhanddeiliaid a dichonoldeb | Cynllun ymgysylltu â rhanddeiliaid | Nodi rhanddeiliaid allweddol, ffermwyr a thirfeddianwyr; amcanion ymgysylltu; dull arfaethedig; a threfniadau ar gyfer cofnodi a rheoli adborth. |
| | Crynodeb o’r gweithdai / cyfarfodydd | Crynodeb o’r ymgysylltu a wnaed, canfyddiadau allweddol, cyfleoedd, pryderon a chamau gweithredu y cytunwyd arnynt. |
| | Adroddiad adborth a dichonoldeb rhanddeiliaid | Adborth cyfunol ar barodrwydd perchnogion tir, dichonolrwydd ymarferol, rhwystrau, cyfleoedd a phartneriaethau cyflawni posibl, gan gynnwys goblygiadau ar gyfer blaenoriaethu. |
| | Diweddaru mapiau cyfleoedd a blaenoriaeth | Haenau GIS diwygiedig, sgoriau MCA a meysydd blaenoriaeth sy’n adlewyrchu ymgysylltu â rhanddeiliaid, gwaith maes a gwell dealltwriaeth o ddichonoldeb. |
| 6. Piblinell gyflawni | Cofrestr cyfleoedd | Cofrestr strwythuredig o gyfleoedd blaenoriaeth a chyfleoedd eraill o bwysigrwydd strategol, gan gynnwys lleoliad, math o ymyriad, rhesymeg, sgôr MCA, cyfyngiadau, manteision dangosol o ran maethynnau, cyd-fanteision amgylcheddol, statws tirfeddiannwr / ymgysylltu, dichonoldeb technegol, amcan gost, partneriaid / cyllid posibl, parodrwydd i gyflawni a’r camau nesaf a argymhellir (gweler awgrymiadau sgema yn Atodiad 2). |
| | Asesiad parodrwydd i gyflawni | Dosbarthu cyfleoedd yn ôl blaenoriaeth strategol a pharodrwydd i gyflawni, gan gydnabod efallai na fydd modd cyflawni safle â lefel uchel o flaenoriaeth ar hyn o bryd ac y gallai safle â llai o flaenoriaeth fod yn gyfle mwy cyraeddadwy yn y dyfodol agos. |
| | Map gweithredu | Piblinell wedi’i blaenoriaethu sy’n dangos y camau nesaf a argymhellir, dibyniaethau, amserlenni tebygol a |

| | | |
|---|---|---|
| | | chynnydd o gyfleoedd strategol drwy ymgysylltu, dichonoldeb, datblygu cysyniadau, cyllid a gweithredu. |
| | Cyfleoedd cyllid a phartneriaethau | Nodi partneriaid cyflawni posibl a mecanweithiau neu raglenni cyllido perthnasol ar gyfer cyfleoedd blaenoriaeth, lle gellir eu nodi'n rhesymol. |
| 7. Datblygu safle â blaenoriaeth | Astudiaethau achos cyfleoedd â blaenoriaeth | Dewis cynrychioladol o safleoedd blaenoriaeth y tu hwnt i'r asesiad bwrdd gwaith, gan ddangos sut y gellir trosi'r fethodoleg strategol yn ymyriadau ymarferol. |
| | Mapiau cysyniadau | Graddfa/cynllun ymyriad dangosol, nodweddion allweddol y safle, cyfyngiadau a chyfleoedd. |
| | Crynodebau o ddichonoldeb safleoedd | Asesiad cychwynnol o sefyllfa tirfeddianwyr, ymarferoldeb technegol, ystyriaethau o ran yr amgylchedd a chydsynio, amcangyfrif o gostau a chyfleoedd cyllido, manteision ehangach o ran maethynnau a'r amgylchedd, bylchau yn y dystiolaeth a dulliau cyflawni posibl. |
| | Argymhellion y cam nesaf | Argymhellion penodol ar gyfer arolygon, dylunio, modelu, caniatadau, ymgysylltu â thirfeddianwyr, cyllid, datblygu partneriaethau a'r monitro sy'n ofynnol i ddatblygu pob safle. |
| 8. Allbynnau terfynol a phecyn data | Adroddiad terfynol a llyfr mapiau strategol | Synthesis o'r fethodoleg, y dystiolaeth, y blaenoriaethau, canfyddiadau'r rhanddeiliaid, y biblinell cyfleoedd, yr astudiaethau achos â blaenoriaeth a'r argymhellion. |
| | Pecyn data GIS | GeoBecyn y Consortiwm Geo-ofodol Agored (OGC) neu adnodd cyfatebol y cytunwyd arno sy'n cynnwys yr holl gyfleoedd terfynol, y llinell sylfaen, y cyfyngiadau, y blaenoriaethau a'r haenau GIS ategol. |
| | Priodoleddau sgorio a data ategol yr MCA | Sgoriau MCA, pwysoliadau, meini prawf, priodoleddau sylfaenol a thystiolaeth berthnasol sy'n cefnogi'r blaenoriaethu. |
| | Metadata sy'n cydymffurfio â Gemini | Cwblhau pecyn metadata ar gyfer setiau data gofodol terfynol. |
| | Symbolau | Cytuno ar symbolau ar gyfer yr holl haenau GIS allweddol, sy'n addas i Awdurdod y Parc a phartneriaid eu defnyddio yn y dyfodol. |

| | | |
|---|---|---|
| | Canllaw i ddefnyddwyr GIS | Arweiniad byr ar strwythur data, tybiaethau allweddol, dehongli, cyfyngiadau, symbolau a gweithdrefnau ar gyfer diweddaru a chynnal y gronfa ddata cyfleoedd. |

## 9. Rhaglen ddangosol

Rhoddir rhaglen ddangosol 12 wythnos isod.

| Wythnos | Cam / Pecyn Gwaith |
|---|---|
| 1-2 | Cychwyn WP1<br>WP1 Tystiolaeth gwaelodlin a'r gronfa ddata GIS |
| 2-5 | WP1 Tystiolaeth gwaelodlin a'r gronfa ddata GIS<br>WP3 Asesiad o'r cyfle i ymyrryd sy'n seiliedig ar natur<br>WP4 Blaenoriaethu |
| 5-8 | WP3 Asesiad o'r cyfle i ymyrryd sy'n seiliedig ar natur<br>WP4 Blaenoriaethu<br>WP5 Ymgysylltu â rhanddeiliaid a dichonoldeb |
| 8-10 | WP6 Piblinell gyflawni<br>WP7 Datblygu safle â blaenoriaeth |
| 10-12 | Allbynnau terfynol a phecyn data |

## 10. Mewnbwn cleientiaid

Er enghraifft, bydd disgwyl i Awdurdod y Parc:

- cymeradwyo methodoleg a phwysoliad MCA ar ddechrau'r prosiect
- darparu setiau data GIS sydd ar gael
- nodi astudiaethau a phartneriaethau perthnasol sy'n bodoli eisoes
- adolygu allbynnau drafft
- rhoi sylwadau o fewn amserlenni y cytunwyd arnynt

## 11. Arbenigedd ymgynghorwyr

Rhagwelir y bydd y tîm(au) llwyddiannus yn dangos profiad mewn meysydd sy'n cynnwys y canlynol, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt:

- GIS a dadansoddiadau gofodol
- hydroleg dalgylch
- mesurau lliniaru maethynnau sy'n seiliedig ar natur
- arferion amaethyddol a phecynnau cymorth amaeth-amgylcheddol
- ymgysylltu â rhanddeiliaid
- adfer afonydd a gorlifdiroedd
- ecoleg morydol a dŵr croyw
- gwasanaethau ecosystemau a chyfalaf naturiol
- Polisi a rheoliadau amgylcheddol Cymru

Croesewir cynigion cydweithredol, ond dylid cyflwyno'r rhain fel un ymateb i'r brîff.

## 12. Grŵp cleientiaid

Bydd y grŵp cleientiaid yn cynnwys:

- Sara Morris, Cyfarwyddwr Creu Lleoedd ac Ymgysylltu, APCAP)

- Emma Gladstone (Rheolwr Polisi Strategol, APCAP)
- Phil Barlow (Swyddog Ymchwil ac Arfarnu Cynaliadwyedd, APCAP)
- Michel Regelous (Swyddog Polisi'r Parc Cenedlaethol a Pholisi Morol, APCAP)
- Sarah Mellor (Arweinydd y Tîm Cadwraeth / Prif Ecolegydd, APCAP)

Gall y grŵp cleientiaid ymgynghori â swyddogion eraill e.e. aelodau'r Bwrdd Rheoli Maetholion yn ôl yr angen

## 13. Gwerthuso a sgorio

Bydd y tendrau'n cael eu gwerthuso yn ôl y meini prawf a'r pwysoliadau canlynol:

| **Cyf** | **Maen Prawf** | **Pwysau** |
|---|---|---|
| A. | Tîm, Profiad a Gallu | 25% |
| B. | Dealltwriaeth o'r Briff a'r Risg; Methodoleg, Dull Gweithredu a Chyflawni | 45% |
| C. | Rheoli Prosiectau a Llywodraethu | 10% |
| D. | Cost a Gwerth Ychwanegol | 20% |
| **Cyfanswm** | | **100** |

Rhoddir sgoriau i bob maen prawf ar raddfa o 0 i 5, gyda 0 yn annerbyniol a 5 yn rhagorol (gweler y **Diffiniadau cyffredinol o sgoriau** a'r **Canllawiau sgorio manwl** isod). Bydd sgorau'n cael eu pwysoli yn unol â'r canrannau a ddangosir uchod. Mae enghraifft o ffurflen werthuso wedi'i chynnwys o dan y canllawiau sgoriau.

### Diffiniadau cyffredinol o sgoriau

| | |
|---|---|
| 0 | Dim ymateb neu'n gwbl annigonol |
| 1 | Gwael iawn - wedi hepgor pethau pwysig, risg uchel |
| 2 | Gwael - yn bodloni'r gofynion yn rhannol, gwendidau sylweddol |
| 3 | Derbyniol - yn bodloni'r gofynion, rhai gwendidau |
| 4 | Da - yn bodloni'r gofynion yn dda, mân wendidau |
| 5 | Rhagorol - yn bodloni'r gofynion yn llawn ac yn rhagori arnynt, dim gwendidau pwysig |

### Canllawiau sgorio manwl

| **Maen Prawf** | **Sgôr ar sail** | **Disgrifyddion sgôr** |
|---|---|---|
| A.<br>Tîm, Profiad a Gallu (25%) | • Perthnasedd y profiad<br>• Ansawdd a pherthnasedd prosiectau enghreifftiol<br>• Sgiliau a phrofiad staff allweddol (gan gynnwys gallu yn y Gymraeg yn benodol o ran trefnu a chynnal gwaith maes)<br>• Priodoldeb yr adnoddau<br>• Cadarnhad y bydd staff penodol yn cyflawni'r gwaith | 5 = Tîm arbenigol, perthnasol iawn gyda hanes blaenorol rhagorol<br>3 = Tîm cymwys gyda phrofiad perthnasol ond cyfyngedig<br>1 = Profiad gwan neu ddiffyg tystiolaeth o brofiad |
| B.<br>Dealltwriaeth o'r Briff a'r Risg; Methodoleg, Dull Gweithredu a Chyflawni (45%) | • Dealltwriaeth o faterion yn ymwneud ag ansawdd dŵr ac ateb sy'n seiliedig ar natur<br>• Dealltwriaeth o gorff dŵr Aberdaugleddau - Mewnol<br>• Nodi risgiau, cyfyngiadau a sensitifrwydd<br>• Dealltwriaeth o'r cyd-destun statudol a gweithdrefnol<br>• Dull clir, rhesymegol a chymesur o ymdrin â phob allbwn gofynnol | 5 = Dealltwriaeth drylwyr a chraff gan fynd i'r afael yn glir â'r risgiau; dull rhagorol, cadarn, amddiffynadwy ac wedi'i ystyried yn glir<br>3 = Dealltwriaeth ddigonol, nodir rhai risgiau; dull sy'n cydymffurfio ond nad yw'n eithriadol |

| | | |
|---|---|---|
| | • Cynllun y prosiect, cerrig milltir ac elfennau i'w cyflawni<br>• Dull o ymdrin â thystiolaeth, data, mapio ac ansicrwydd<br>• Trefniadau sicrhau ansawdd ac adolygu<br>• Realaeth ac yn gallu cyflawni'r amserlen | 1 = Dealltwriaeth arwynebol neu gyffredinol; dull gwan, aneglur neu beryglus |
| C.<br>Rheoli Prosiectau a Llywodraethu (10%) | • Eglurder y trefniadau rheoli a llywodraethu<br>• Dull cyfathrebu ac adrodd<br>• Rheoli risg<br>• Gallu i ymateb a hyblygrwydd<br>• Trefniadau ar gyfer cysylltu ag Awdurdod y Parc<br>• Tystiolaeth bod y cynigydd yn cydymffurfio â chyfraith cyflogaeth y DU, yn sicrhau bod staff sydd wedi'u neilltuo i'r contract yn gymwys, yn cael eu cefnogi a'u goruchwylio, ac yn dangos arferion cynhwysol gydag addasiadau rhesymol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 | 5 = Dull rheoli cryf iawn, risg isel, wedi'i strwythuro'n dda; tystiolaeth glir, gredadwy, sy'n benodol i gontractau o gydymffurfio â chyfraith cyflogaeth, trefniadau cadarn i sicrhau cymhwysedd staff /cefnogi staff, ac agwedd gadarnhaol ac ymarferol at gynhwysiant a chydraddoldeb.<br>3 = Trefniadau rheoli derbyniol; cadarnhad clir o gydymffurfio â chyfraith cyflogaeth, gyda threfniadau rhesymol ar gyfer cymhwysedd/cefnogaeth staff ac arferion cynhwysol.<br>1 = Dull rheoli gwan neu aneglur; tystiolaeth brin neu aneglur o gydymffurfio â chyfraith cyflogaeth, gallu staff/cefnogaeth i staff, neu arferion cynhwysol |
| D.<br>Cost a Gwerth Ychwanegol (20%) | • Gwerth am arian (nid y pris isaf yn unig)<br>• Tryloywder ac eglurder dadansoddiad costau<br>• Realaeth mewnbynnau a chyfraddau staff<br>• Eglurder treuliau a thybiaethau<br>• Unrhyw werth ychwanegol gwirioneddol | 5 = Gwerth rhagorol, clir, gyda thystiolaeth dda a realistig<br>3 = Derbyniol a rhesymol<br>1 = Gwerth gwael neu gostau aneglur/afrealistig |

**Enghraifft o ffurflen werthuso**

| |
|---|
| Gwahoddiad i Dendro: Astudiaeth Ddichonoldeb Atebion Seiliedig ar Natur Gorllewin Cleddau Isaf<br>Y Cynigydd:<br>Gwerthusiad:<br>Dyddiad: |

| **Maen Prawf** | **Pwysau** | **Sgôr (0-5)** | **Sgôr wedi'i phwysoli** |
|---|---|---|---|
| A. Tîm, Profiad a Gallu | 25 | | (Sgôr x 25) |
| B. Dealltwriaeth o'r Briff a'r Risg; Methodoleg, Dull Gweithredu a Chyflawni | 45 | | (Sgôr x 45) |
| C. Rheoli Prosiectau a Llywodraethu | 10 | | (Sgôr x 10) |
| D. Cost a Gwerth Ychwanegol | 20 | | (Sgôr x 20) |
| **Cyfanswm** | **100** | | **Cyfanswm y sgôr wedi'i bwysoli uchaf = 500**** |

**Rhannwch gyfanswm y sgôr wedi'i bwysoli â 5 i gael y sgôr canran cyffredinol.

## 14. Amodau'r Gwahoddiad i Dendro

a. Bydd y cynigion yn ddilys am 90 diwrnod o'r dyddiad cau ar gyfer eu cyflwyno.
b. Bydd y penodiad yn cael ei ffurfioli drwy dderbyn y tendr llwyddiannus yn ysgrifenedig, a all fod drwy gyfathrebu electronig.
c. Rhoddir sgoriau i bob ymgeisydd pan gaiff wybod am y canlyniad, ond bydd penderfyniad y grŵp cleient yn derfynol.
d. Nid yw'r Awdurdod yn ymrwymo i dderbyn y cynnig isaf nac unrhyw gynnig arall ac ni fydd yn gyfrifol nac yn atebol am unrhyw gostau, treuliau na cholledion a wynebir gan ymgeiswyr wrth baratoi eu cynnig nac eu ffi ymgeisio.
e. Ni ddylai ymgeiswyr fynd ati'n amhriodol i ganfasio, ceisio dylanwadu, na thrafod eu cynnig gyda Swyddogion nac Aelodau'r Awdurdod na gyda thrydydd partïon.

## 15. Telerau ac amodau'r prosiect

i. Bydd yr holl hawliau eiddo deallusol yn y gwaith a gynhyrchir o dan y contract yn eiddo i Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, yn amodol ar unrhyw hawliau sydd eisoes gan y contractwr.
ii. Bydd y contractwr a benodir bob amser yn cydymffurfio â gofynion y ddeddfwriaeth berthnasol, y gyfraith gyffredinol gan ddefnyddio pob sgil a gofal rhesymol.
iii. Bydd gofyn i'r ymgeisydd gydymffurfio ag egwyddorion Safonau'r Gymraeg yr Awdurdod, gan gynnwys hybu a hwyluso'r defnbydd o'r Gymraeg. (Bydd hyn yn arbennig o berthnasol wrth gyfathrebu â thirfeddianwyr a gwneud gwaith maes.)
iv. Gall y Contractwr ddarparu'r holl wasanaethau'n uniongyrchol neu is-gontractio tasgau penodol. Bydd y Contractwr yn parhau i fod yn gwbl gyfrifol am waith y tîm cyfan. Rhaid i'r holl wasanaethau proffesiynol gael eu darparu gan bobl sydd wedi'u hyfforddi'n briodol a gyda'r cymwysterau priodol. Ni chaiff unrhyw is-gontractio arwyddocaol ddigwydd heb ganiatâd ysgrifenedig yr Awdurdod ymlaen llaw, ac ni ddylid ei ddal yn ôl na'i ohirio'n afresymol.
v. Bydd yn amod o'r penodiad fod y Contractwr, yn amodol ar Gymal xiv (isod), yn indemnio ac yn parhau i indemnio'r Awdurdod yn erbyn pob hawliad, gorchymyn, achos, iawndal, cost, cyhuddiad a thraul sy'n deillio o gyflawni'r contract sy'n deillio o esgeulustod neu dorri contract, neu mewn cysylltiad â hynny. Bydd y contractwr yn cynnal yswiriant indemniad proffesiynol o £5,000,000 am gyfnod y contract ac am gyfnod o 6 blynedd wedyn.
vi. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 yn berthnasol i holl weithgareddau'r Awdurdod, ac mae'r contractwr yn cydnabod y gallai fod angen i'r Awdurdod ddatgelu gwybodaeth yn unol â'i rwymedigaethau statudol.
vii. Rhaid i'r contractwr ddatgan unrhyw wrthdaro rhwng buddiannau yn ysgrifenedig, gan gynnwys buddiannau cyfarwyddwyr cwmnïau, cyflogeion a'u teuluoedd a fydd yn gwneud gwaith i'r Awdurdod neu unrhyw Dirwedd Ddynodedig arall yng Nghymru.
viii. Bydd unrhyw ddogfennau mewnol a ddarperir gan yr Awdurdod yn cael eu darparu at ddibenion yr astudiaeth hon yn unig ac ni fyddant yn cael eu defnyddio at unrhyw ddiben arall na'u datgelu heb ganiatâd penodol yr Awdurdod. Ar ôl cwblhau'r astudiaeth a chyflawni'r allbynnau terfynol, bydd pob dogfen fewnol o'r fath yn cael eu dileu'n ddiogel. Bydd y rhwymedigaeth hon yn parhau ar ôl cwblhau neu derfynu'r contract.
ix. Bydd y contractwr yn cadw'r holl wybodaeth gyfrinachol ei natur a gafwyd mewn cysylltiad â'r contract yn gyfrinachol ac ni fydd yn datgelu gwybodaeth o'r fath i

unrhyw drydydd parti heb ganiatâd ysgrifenedig ymlaen llaw gan yr Awdurdod, ac eithrio'r hyn sy'n ofynnol dan y gyfraith.

x. Gall yr Awdurdod derfynu'r contract ar unrhyw adeg drwy roi rhybudd ysgrifenedig os bydd y Contractwr yn torri'r contract yn arwyddocaol, yn mynd yn ansolfent, neu'n methu â chyflawni'r gwasanaethau i'r safon ofynnol. Gall yr Awdurdod hefyd derfynu'r Contract er hwylustod drwy roi rhybudd ysgrifenedig rhesymol. Os terfynir contract, dim ond am waith a wnaed yn briodol hyd at y dyddiad terfynu y bydd gan y Contractwr hawl i gael taliad.


xi. Bydd y contract yn cael ei lywodraethu a'i ddehongli yn unol â Chyfraith Cymru a Lloegr, a bydd y partion yn ddarostyngedig i awdurdodaeth lwyr llysoedd Cymru a Lloegr.

xii. Ni fydd unrhyw beth yn y telerau ac amodau hyn yn creu unrhyw bartneriaeth na menter ar y cyd rhwng yr Awdurdod a'r contractwr.

xiii. Ni chaiff y Contractwr aseinio na throsglwyddo'r contract heb ganiatâd ysgrifenedig ymlaen llaw gan yr Awdurdod.

xiv. Ni fydd cyfanswm atebolrwydd y Contractwr (ac eithrio ar gyfer anaf personol neu farwolaeth sy'n deillio o esgeulustod neu gamliwio twyllodrus) o dan y Contract neu mewn cysylltiad ag ef, sut bynnag y bydd yn codi, yn fwy na £250,000.

# Atodiad 1 - Trosolwg / map cyd-destun



## Atodiad 2 - Diagram o'r gofrestr cyfleoedd a awgrymir

| **Priodoledd** | **Pwrpas** |
|---|---|
| Cyfeirnod y Cyfle | Cyfeirnod unigryw |
| Lleoliad / corff dŵr | Cyfeirnod gofodol |
| Math o ymyriad | Gwlyptir, coetir glannau afon, adfer gorlifdir, draenio amaethyddol ac ati. |
| Rhesymeg strategol | Pam mae'r lleoliad hwn yn bwysig |
| Mynd i'r afael â phwysau maethynnau | N, P, gwaddod, ac ati. |
| Y fantais faethol dangosol | Amcangyfrif o'r ystod |
| Hyder yn y fantais | Uchel / canolig / isel |
| Sgôr MCA | Blaenoriaeth gyffredinol |
| Cyd-fanteision amgylcheddol | Bioamrywiaeth, llifogydd, carbon, tirwedd ac ati. |
| Cyfyngiadau allweddol | Ffisegol / rheoleiddiol / defnydd tir |
| Statws tirfeddiannwr | Anhysbys / wedi cysylltu / â diddordeb / yn fodlon / ddim yn fodlon ar hyn o bryd |
| Hyfywedd technegol | Asesiad cychwynnol |
| Cost ddangosol | Trefn maint |
| Parodrwydd i gyflawni | Cyfle / ymgysylltu / ymarferol / cysyniad / cyllid yn barod |
| Partneriaid posibl | Sefydliadau perthnasol |
| Cyllid posibl | Llwybrau cyllido tebygol |
| Camau nesaf | Camau gweithredu penodol a argymhellir |
| Bylchau yn y dystiolaeth | Arolygon / dyluniad / modelu sydd eu hangen |

## Atodiad 3 - Mentrau a ffynonellau gwybodaeth eraill

Rhaid i'r prosiect hwn fod yn brosiect sy'n cyd-fynd ag amrywiaeth o fentrau blaenorol a phresennol eraill ac wedi'i leoli oddi mewn iddynt, a rhestrir rhai ohonynt isod:

- **Bwrdd Rheoli Maetholion Afonydd Cleddau** - e.e. *Cynllun Rheoli Maetholion Afonydd Cleddau*, Arcadis, 2025
- **Cynllun Adfer Afon ACA Afonydd Cleddau** - mae'n nodi opsiynau adfer posibl sydd wedyn angen ymchwilio iddynt a'u dilysu ymhellach.
- **Model Proffilio Manteision Cyfalaf Naturiol Bae ac Aberoedd Caerfyrddin**, Bwrdd Rheoli Maetholion Gorllewin Cymru, 2026
- Mentrau **Dŵr Cymru Welsh Water** - gan gynnwys buddsoddiadau mewn Gwaith Trin Dŵr Gwastraff, fel y nodir yn y rhaglen AMP ddiweddaraf neu raglenni buddsoddi tebyg.
- **Prosiect Pedair Afon LIFE** (CNC) - elfennau adfer afonydd a rheoli tir. Mae posibilrwydd y bydd Cyngor Sir Penfro yn gweithio ar y cyd â'r prosiect hwn ar Cleddau Wen.
- **Cyfoeth Naturiol Cymru** - adroddiad Rhif 436 *Cynllun Adfer Afon Strategol ACA Afonydd Cleddau* (JBA Consulting, 2020)[4], Mae ardaloedd yr astudiaeth uwchlaw terfynau'r llanw (terfyn astudiaeth Cleddau Wen felly yw'r gored ar derfyn y llanw yn Hwlffordd, ac ym mhont Melin Blackpool ar gyfer Cleddau Ddu)
- **Cyfoeth Naturiol Cymru** - Gwelliannau Ansawdd Dŵr mewn cyrff dŵr WFD ac Ardaloedd Morol Gwarchodedig, sy'n rhan o brosiectau morol Argyfwng Natur a Hinsawdd Cyfoeth Naturiol Cymru
- Mapiau **WINS (Gwybodaeth Atebion sy'n Seiliedig ar Natur Cymru) Cyfoeth Naturiol Cymru** - ffynhonnell nodi cyfleoedd. Gwybodaeth Gymreig ar gyfer Atebion sy'n Seiliedig ar Natur - Porth Gwybodaeth Amgylcheddol Cymru (sydd angen dilysu).
- **Masnachu credydau maethynnau** - Mae Cyngor Sir Penfro yn disgwyl adeiladu ar waith Rhan 1 y Rhaglen Gyfalaf Llety Trosiannol ar Ystâd y Sir, a rhagwelir y bydd comisiwn pellach ar sefydlu cynllun masnachu credydau maethynnau. Ar wahân, mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu Arup i edrych ar fasnachu credydau maethynnau ar lefel Cymru gyfan. Gallai ffrwd waith Bwrdd Rheoli Maetholion ar fapio cyfalaf naturiol fod â synergeddau â'r ffrwd waith hon a ffrydiau gwaith eraill.
- **Bwrdd Rheoli Maetholion** - gwaith monitro arfaethedig ar yr Afon Cleddau.
- **Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro (2023)** *Canllawiau Coed a Choetiroedd Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro. Asesiad o sensitifrwydd tirwedd o ran creu coetir*

[4] Ar gael o library@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

- **Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro** (2026) *Adolygiad o'r cynnydd hyd yma a fframwaith strategol ar gyfer rhoi'r targed 30 erbyn 30 ym Mharc Cenedlaethol Arfordir Penfro*
- **Fforwm Arfordir Sir Benfro (PCF)** - Mentrau Partneriaeth Fenter Ecosystemau, EcoFanc a Meithrin Cadernid mewn Dalgylchoedd.
- **Cyngor Sir Penfro** - Strategaeth Lliniaru Nitrogen a Ffosfforws ar gyfer daliadau tir Cyngor Sir Penfro
- **Cyngor Sir Penfro** - Gwaith adfer afonydd sy'n canolbwyntio ar Gleddau Wen yn ardal Hwlffordd (dan arweiniad y Cyngor Sir)
- **Mentrau Partneriaeth Natur Sir Benfro** yn Sir Benfro, sydd â'r posibilrwydd i ddod â manteision o ran cadwraeth natur ac adfer afonydd.
- **Mapio risg dŵr ffo ac erydu** - mae gan adnodd cynllunio Canolfan Gwybodaeth Bioamrywiaeth Gorllewin Cymru fapiau o brosiect a ariannwyd gan y PCF, sef 'Building Natural Solutions'. Mar mapiau tebyg ar gael ar Borth Gwybodaeth Amgylcheddol Cymru Cyfoeth Naturiol Cymru
- **Arolygu Dyfrffyrdd / Amgylchedd Cymru o ran Bygythiadau Llygredd (SWEPT)** - monitro gwyddor dinasyddion o N a P yn mynd i'r amgylchedd morol o fewnbynnau dŵr croyw dan arweiniad Swyddog ACA Morol Sir Benfro. Prosiect Gwirfoddoli 2018-19 (Dyfrffordd Aberdaugleddau), 2020 (rhai safleoedd dyfrffyrdd a'r arfordir agored), a 2024 gyda'r Gymdeithas Cadwraeth Forol fel rhan o Natur am Byth! Prosiect Môr (rhai safleoedd dyfrffyrdd ac arfordir agored) a ddarperir gan Ymddiriedolaeth Afonydd Gorllewin Cymru
- **Rhaglen Arddangosydd Afon Teifi**, e.e. Teifi Fyw
- **Prosiect Afonydd Cleddau** - e.e. Ffosfforws ac Ansawdd Dŵr yn Nalgylch Afonydd Cleddau, 2026, Adroddiad Cynnydd Cychwynnol Prosiect Asesu Dalgylch Afonydd Cleddau (2024)
- Mae **Rhwydweithiau Mentrau Tirwedd Gorllewin Cymru** (Puffin Produce a First Milk) yn dangos y posibilrwydd o fuddsoddiad cydweithredol yn y sector preifat i gefnogi ymyriadau ar raddfa fferm sy'n sicrhau ansawdd dŵr a chanlyniadau amgylcheddol ehangach.
- **Prosiect Gwella Ansawdd Dŵr Gorllewin Cymru**, Afonydd Cymru 2019
- **Monitro WFD** (drwy MapDataCymru). Prif gorff dŵr WFD ar gyfer y rhan o Hwlffordd i lawr yr afon i'r cydlifiad â Chleddau Ddu, yw Afon Cleddau Wen - Cylifiad Anghof i gylifiad Nant Cartlett (GB110061031340)
- **Prosiect Cyfanluniau WWF** - Adfer Afon Cleddau

Diwedd.